LANG, GORDON (1893-1981), gwleidydd Llafur a gweinidog anghydffurfiol

Enw: Gordon Lang
Dyddiad geni: 1893
Dyddiad marw: 1981
Priod: Emily Anne Lang (née Evans)
Rhiant: T.W. Lang
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gwleidydd Llafur a gweinidog anghydffurfiol
Maes gweithgaredd: Crefydd; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol
Awdur: John Graham Jones

Ganwyd ef ar 25 Chwefror 1893, yn fab i T. W. Lang, YH, Mynwy, a'i wraig. Addysgwyd ef yn Ysgol Ramadeg Mynwy a Choleg Cheshunt, ac yna ordeiniwyd ef yn weinidog anghydffurfiol. Ym 1930 penodwyd Lang yn gaplan anrhydeddus i Urdd Siewmyn Prydain Fawr ac Iwerddon, daeth yn ddarlithydd mewn addysg oedolion i Luoedd Arfog ei Fawrhydi yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Eisteddodd fel yr AS Llafur h n dros etholaeth Oldham o fis Mai 1929 hyd at ei orchfygu yn etholiad cyffredinol 1931 pan chwalwyd ei blaid yn yr etholiad. Safodd yn aflwyddiannus yn Oldham eto yn etholiad cyffredinol Tachwedd 1935 a safodd mewn is-etholiad ar gyfer etholaeth Stalybridge a Hyde, swydd Caer yn Ebrill 1937. Cipiodd yr etholaeth honno yn etholiad cyffredinol Gorffennaf 1945 a chynrychiolodd yr etholaeth nes iddo ymddeol o'r senedd yn etholiad cyffredinol Hydref 1951. Ei nod drwy gydol ei yrfa oedd cyfuno gwaith bugeiliol â rhychwant eang o weithgarwch gwleidyddol.

Gordon Lang oedd cadeirydd yr Undeb Ffederal Seneddol a'r Gymdeithas Cynrychiolaeth Gyfrannol, 1947-51, a chyd-ysgrifennydd Mudiad Ewrop Unedig. Bu'n is-lywydd y Biwro Ieuenctid Rhyngwladol, 1948-56. Roedd yn aelod o Gyngor Cymdeithas Hansard, 1948-54, ac yn aelod o bwyllgor gwaith Undeb Rhyngwladol y Seneddwyr, 1946-51. Yn dilyn ei ymddeoliad o'r senedd, bu'n aelod o Gorfforaeth Tref Newydd Cwmbrân, 1955-64, a gwasanaethodd yn weinidog ar Eglwys Pen-y-waun, Cwmbrân, 1956-77. Cyhoeddodd gofiant i Meistr Ustus Avory ym 1935 (blwyddyn marwolaeth ei oddrych), *Modern Epistles* (1952) a *Mind behind Murder* (1960). Cyhoeddodd hefyd nifer o weithiau ffuglen a llawer o gyfrolau a phapurau ar seicoleg gymhwysol a throseddeg. Roedd parch mawr ato fel troseddegwr ac arbenigwr ar ddiwygio carchardai. Priododd ar 12 Medi 1916 Emily neu Emilie Anne, merch J. W. Evans, Leechpool, Cas-gwent, a bu iddynt un mab ac un ferch. Gwnaethant eu cartref yn Wycliffe, Cas-gwent, Mynwy, a 6 Bigstone Grove, Tutshill, Cas-gwent. Bu farw ar 20 Mehefin 1981 ac amlosgwyd ei weddillion yn amlosgfa Gwent, Croesyceiliog.

Awdur

Dr John Graham Jones

Ffynonellau

Who was who?

Dod's Parliamentary Companion

The Times, 24 Mehefin 1981

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 181450036586613408O2

Wikidata: Q5585440

Dyddiad cyhoeddi: 2008-07-30

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu